

Cyngor Cymuned Llandwrog – Adroddiad Blynyddol 2021-22



Gair gan y Cadeirydd, Cynghorydd Clive Bayley

- ▶ Ers cychwyn fy nghyfnod fel Cadeirydd i'r Cyngor Cymuned ym mis Mai, 2021, mae wedi bod yn gyfnod heriol tu hwnt wrth barhau i ddelio a materion gwahanol yn sgil Covid-19 ond yn wir rwy'n falch o adrodd ein bod wedi llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaeth i'r gymuned ac wedi medru parhau i gynnal ein cyfarfodydd misol yn rhithiol.
- ▶ Ar drothwy cyfnod newydd ac yn dilyn cyfnod yr Etholiad rydym yn ffarwelio a'r Cyng. Eric M Jones a'r Cyng. Dilwyn Lloyd, dymuniadau gorau i'r ddau. Ar hynny hoffwn ymestyn croeso cynnes i'r Cyng. Llio Elenid Owen fydd yn gynghorydd Sir Ward Y Groeslon a'r Cyng. Arwyn Herald Roberts fydd yn gynghorydd Sir Ward Tryfan. Yn ogystal byddwn yn ffarwelio ac yn dymuno'n dda i Gerwyn Owen fydd yn ein gadael wedi cyfnod o 8 mlynedd a Hywel John Owen fydd yn ein gadael wedi cyfnod o 39 mlynedd. Diolch i'r ddau am eu gwaith diddiwedd dros y blynyddoedd, bydd colled enfawr ar eu hôl.
- ▶ Bu i ni ymgymeryd a gwaith yn ddiweddar a'r lwybrau mynwent Bryn'rhodyn ac hoffwn ymestyn diolch i Chwarel Y Fron am y cyflenwad o lechi man yn ogystal a cwmni Jones Bros, Ruthun am eu gwaith yn rhad ac am ddim - mae hyn wedi creu gwelliant sylweddol i'r fynwent. Yn ogystal, rwy'n falch o adrodd bod y Cyngor Cymuned wedi medru cefnogi mudiadau lleol gyda rhoddion o dros £8,000 dros y cyfnod hwn. Bu i'r Cyngor fuddsoddi mewn tabled ar gyfer pob aelod a byddwn yn parhau gyda'r drefn yma i'r dyfodol gyda'r bwriad o barhau i fod y ddi-bapur.
- ▶ Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch i David Roberts ag Ann Llwyd am eu gwaith penigamp dros y flwyddyn, David am ei waith gweinyddol trefnus ac Ann am yr holl waith cyfieithu rhagorol.
- ▶ Fel y gwyddoch bydd Cadeirydd newydd yn cael ei benodi yn yr wythnosau nesaf a dymunaf y gorau iddo/iddi. 'Rwyf wedi mwynhau'r cyfnod hwn fel Cadeirydd a hoffwn ddiolch i'r Cyngor am y cyfle cyffroes hwn, mae wedi bod yn bleser.

Cyllideb y Cyngor 2021-22

Incwm o'r Praesept **£66,000** £64,000 yn 2020/21

Incwm Ffioedd **£3,125** £4,374 yn 2020/21

Gwariant **£63,506** £60,361 yn 2020/21

Balansau'r Cyngor yn sefyll 31/3/2022 **£24,883**
£19,263 ar 1af Ebrill 2021



Dyled y Cyngor ar 31 Mawrth 2022 **£112,653** £119,561 ar 31 Mawrth

2021 (Tri benthyciad tymor hir: 1. Prynu tir ym Mrynrodyn yn 1996 am £15,500, 2. Gwaith llwybrau mynwentydd yn 2006 £65,000, a 3. Datblygu Fynwent Newydd Bryn' rodyn yn 2014 a gostiodd £100,000.



Gwaith eich Cyngor am y flwyddyn 2021/22

Pwnc

- 1) Rheoli Eiddo'r Cyngor a Thiroedd Eraill
- 2) Gweinyddiaeth a Llywodraethiant
- 3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol
- 4) Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionnydd 2023
- 5) Cynrychioli eich Cymuned
- 6) Partneriaethu a Chyd Weithio
- 7) Ymgysylltu Gyda'r Gymuned
- 8) Ceisiadau Cynllunio
- 9) Gwella Ein Pentrefi a Cefnogi ein Cymuned
- 10) Covid 19
- 11) Effaith Twristiaeth a'r Farchnad Dai
- 12) Etholiadau Llywodraeth Leol 5/5/22

1 Rheoli Eiddo'r Cyngor a Thiroedd Eraill



- ▶ Cyflawnwyd rhaglen waith cynhwysfawr ym mynwentydd y plwyf sef mynwentydd Llandwrog, Carmel a Bryn'rodyn i wella edrychiad.
- ▶ Cynhaliwyd y gladdedigaeth gyntaf yn fynwent newydd Bryn'rodyn
- ▶ Gosodwyd diffribiliwr yng nghanban ffôn Dinas Dinlle.
- ▶ Yn darparu cyllid a chefnogaeth ar gyfer rhaglen hyfforddiant i'r gymuned ar ddefnyddio diffribribilwyr
- ▶ Yn cynnal rhwydwaith eang o lwybrau cyhoeddus.
- ▶ Wedi derbyn cais i gofrestru Llwybr Pen Carmel ac wedi cynnal ymgynghoriad gyda'r gymuned.
- ▶ Wedi mynd trwy broses tendro'r gwaith o gynnal tiroedd y Cyngor. Steven Lewis o Trefor fydd yn cynnal tiroedd y Cyngor am gyfnod o 3 mlynedd at 31/3/2025
- ▶ Yn cynnal 11 llochesi bws ac wedi cynnal trafodaethau a chyfarfodydd gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn a llochesi bws newydd yn Sgwâr Y Groeslon
- ▶ Yn cynnal systemau TGCh fel bod y Cyngor yn ddi-bapur ac yn arbed costau gweinyddiaeth
- ▶ Yn monitro a chydweithio gyda Chymdeithas Y Porwyr am ffensio anghyfreithlon ar dir comin Uwch Gwyrfai
- ▶ Yn torri gwair tiroedd comin yn y pentrefi i wella edrychiad
- ▶ Cynhaliwyd 10 claddedigaeth yn mynwentydd y Cyngor , un ohonynt yn y fynwent newydd ym Mryn'rodyn

2 Gweinyddiaeth a Llywodraethiant

Cynhaliwyd pob un o gyfarfodydd y Cyngor dros fidio (cyfarfodydd rhithiol) trwy gydol y flwyddyn

Comisiynwyd Ysgol Dyffryn Nantlle i ddylunio logo newydd i'r Cyngor. Dewiswyd logo newydd gan Alisha Becker.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol y Cyngor am 2021/22

Adolygwyd Asesiad Risg Blynnyddol y Cyngor, Anghenion Yswiriant a Cytundeb Cyflogaeth y Rheolwr yn ystyd y flwyddyn

Adolygwyd telerau ac amodau gwaith Rheolwr y Cyngor yn 2021/22. Bu i'r oriau gwaith cytundebol gynyddu o 50 awr y mis i 63.5 y mis

Penderfynwyd talu lwafans presenoldeb o £10 i pob Aelod i fynychu pob cyfarfod i gychwyn 1/4/2022.




3 Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol

Talwyd cyfanswm o **£8,325** i **20** mudiad yn amrywio o £100 i £1,200

Rhoddwyd gyfraniad o £625 i Ysgol Bro Llifon tuag at cost Ci Therapi i'r Ysgol.



AMBIWYLANNS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE



4 Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023

- ▶ Derbyniwyd gohebiaeth gan Swyddfa'r Eisteddfod yn cadarnhau'r bwriad i gynnal yr Eisteddfod yn 2023 gan fod Eisteddfod 2021 wedi ei ohirio
- ▶ Bydd targed Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol i'n cymuned gyfrannu swm o **£5,000** fel rhan o darged ehangach o £400,000 yn parhau.
- ▶ Bydd angen ail sefydlu'r gwaith a wnaethpwyd gan y Cyngor Cymuned cyn y cyfnod clo i'r pentrefi sefydlu pwyllgor neu bwyllgorau fyddai'n annibynnol o'r Cyngor i drefnu gweithgareddau i godi'r arian.
- ▶ Disgwylid Swyddfa'r Eisteddfod ydi fod pob cymuned yn creu awyrgylch o fwrlwm a digwyddiadau am gyfnod o ddeunaw mis fydd yn codi ymwybyddiaeth pawb yn ein cymuned fod yr Eisteddfod yn dod i'r ardal
- ▶ Mae'r Cyngor wedi ymrwymo **£3,000** tuag at y targed er mwyn lleihau y faich ar y gymuned.



5 Cynrychioli Eich Cymuned

Mae aelodau y Cyngor a'r Rheolwr yn cynrychioli y gymuned ar y Grwpiau canlynol. Ni chynhaliodd pob grwp gyfarfodydd yn 2021/22 oherwydd y pandemig.

- ▶ Grŵp Cyswllt Chwareli Moel Tryfan ac Alexandra
- ▶ Ysgol Bro Llifon
- ▶ Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor Un Llais Cymru
- ▶ Strategaeth Llifogydd Dinas Dinlle a'r Foryd
- ▶ Golwg 360 Dyffryn Nantlle
- ▶ Fforwm Cymunedol Llechi Cymru
- ▶ Rhaglen SMS Coedlan Parc Glynllifon

6 Partneriaethu a Cyd-weithio

Parhau i fod mewn partneriaeth gyda Cyngor Gwynedd i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor trwy fuddsoddiad blynyddol o £4,000.

Parhau i bartneriaethu gyda Plwyf Eglwys Llanwnda a Llandwrog i dorri gwair mynwent Eglwys Sant Tomos, Y Groeslon


Yn cydweithio gyda sawl mudiad oddi fewna thu hwnt I'r gymuned a'r proseicatu ee Fforwm Cymunedol Llechi Cymru

Yn cydweithio, ac un o'r partneriaid blaenllaw, gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Strategaeth Dinas Dinlle a'r Foryd

Yn cydweithio gyda Pwyllgorau Pentrefi / y gymuned i adnabod tiroedd comin sydd angen ei cynnal

7 Ymgysylltu Gyda'r Gymuned

O Ebrill 2021 fe wnaeth Cyngor benderfynu ymgysylltu trwy sefydlu gwefan cymdeithasol yn benodol "Facebook" a "Twitter". Cwmni Aqua Marketing Llandwrog sydd yn rheoli'r gwefannau cymdeithasol ar ran y Cyngor. Ma Cyngor wedi ymrwymo i gael gwell cysylltiad yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda holl drigolion y gymuned nol yn 2019



Wedi ymgysylltu a sawl materion yn ystod y flwyddyn –

Lôn Ffrwd, Llandwrog,
Llwybr Pen Carmel,

Plannu Coed i ddathlu penblwydd 70 Parc Cenedlaethol Eryri
Cynllun Insiwleiddio Tai (Arbed/EWI) Carmel a Fron

cwmni
CELyn

Ymgynghoriaeth Reol - Hyfforddiant - Cefnogaeth Busnes
Management Consultancy - Training - Business Support

Delwedd
websites that work
gwefannau sy'n gweithio

delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 685 227

8 Cynllunio



- ▶ Nifer ceisiadau cynllunio y gwnaed sylwadau arnynt yn y cyfnod

▶ **36**



9 Gwaith yn Ein Pentrefi..... engreiffitiau o'r gwaith wnaed gan eich Cyngor yn ystod y flwyddyn



photo © D Gallery



- ▶ Gwaith cynnal a thacluso mynwentydd Carmel, Bryn'rodyn a Llandwrog.
- ▶ Monitro gyda Cymdeithas y Porwyr i atal ffensio angfyreithlon a gwaredu cerbydau o'r tir comin.
- ▶ Yn aelod blaenllaw o Strategaeth Llifogydd Dinas Dinlle a'r Foryd gyda cyd weithrediad Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru am Strategaeth ar gyfer Dinas
- ▶ Wedi dwyn pwysau ar y Llywodraeth a Sian Gwenllian AC i ofyn am ddatrusiad i' diffygion y cynllun insiwleiddio yn pentref Y Fron a Carmel
- ▶ Yn cynnal diffribiliwr yn Ninas Dinlle ac wedi cefnogi Pwygor Pentref Carmel i gael diffribiliwr
- ▶ Gwella delwedd ein pentrefi trwy gyfres o waith megis Clwt Foty Carmel a thiroedd comin eraill yn y gymuned
- ▶ Cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar llochesi bws newydd T2 yn Sgwâr Y Sgwâr Y Groeslon ac yn cynnal un ar ddeg lloches bws
- ▶ Wedi cefnogi gwaith sydd yn cael ei wneud gan Menter Tŷ'n Llan ac wedi rhoi rhodd ariannol i'r fenter
- ▶ Wedi gohebu a pwysu ar Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiogelu y llwybr troed a Dinas Dinlle
- ▶ Pwysu ar Gyngor Gwynedd i wneud gwaith ar lonydd y gymuned, clirio ffosydd, cynnal biniau halen, clirio sbwriel a defnydd o'r peiriant Johnson i lanhau y pentrefi
- ▶ Cynnal y rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus yn y gymuned
- ▶ Wedi cysylltu gyda asiantaethau ynglŷn y cynydd sylweddol yn nifer y cerbydau trwm oedd yn teithio trwy Dolydd yn ystod gwaith ar y ffordd newydd
- ▶ Cymerwyd rhan yn ymgynghoriad Cyngor Gwynedd "Ardal Ni 2035"

10 Twristaieth a'r Farchnad Dai

- ▶ Cynhaliwyd trafodaethau ynglyn ag ail dai. Cwbwlhawyd tri ymgynhoriad Llywodraeth Cymru ar y mater sef 1) Deddfwiriaeth Ail Dai a Llety Gwniau 2) Trethi Ail Dai a 3) Cynllyn Tai Cymunedau Cymraeg.
- ▶ Yn partneriaethu gyda Chyngor Gwynedd ac yn cyfrannu £4,000 i gadw toiled y Marine, Dinas Dinlle ar agor.
- ▶ Yn monitro a gohebu gydag Adran Morwrol Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ynglyn a chyflwr llwybr traeth a parcio dros nos yn Dinas Dinlle.




11 Covid 19

- ▶ Cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyngor trwy fidio yn ystod y flwyddyn.
- ▶ Cydymffurfiwyd a rheolau y Llywodraeth parthed eiddo'r Cyngor.



**First Minister
Mark Drakeford
focuses on mental
health and wellbeing
in coronavirus
update**



12

Etholiadau 5 Mai 2022

- ▶ **Cynhaliwyd etholiadau Llywodraeth Leol ar Mai 5ed, 2022** - yn cynnwys etholiadau i Gyngor Gwynedd ac etholiadau i'r Cyngor Cymunedau. Bydd cynghorwyr etholedig yn gwasanaethu am gyfnod o 5 mlynedd, tan Mai 2027.
- ▶ Dyma'r etholiadau llywodraeth leol cyntaf i gael eu cynnal ers cyflwyno deddfwriaeth newydd yng Nghymru sy'n galluogi i bawb sydd wedi cofrestru, sy'n byw yn gyfreithiol yng Nghymru ac sydd o leiaf 16 oed i bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais.
- ▶ Dyma'r etholiadau cyntaf hefyd i gael eu gweinyddu ar y trefniadau ffiniau newydd.

Rhaglen Waith 2022/23

- ▶ Gwaith adfer llwybrau a waliau mynwent Llandwrog
- ▶ Gwella delwedd pentrefi trwy adnabod a chynnal tiroedd comin a tiroedd eraill (torri gwair), biniau baw cwn a cefnogi'r gymuned i gasglu sbwriel
- ▶ Adnabod lleoliad a chyllid i osod lloches bws yn Ninas Dinlle.
- ▶ Datblygu'r gwefan a chynyddu nifer y gynulleidfa ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor
- ▶ Ysgrifennu Cynllun Hyfforddiant – erbyn 5/11/22 mae rhaid i pob Cyngor Cymuned ysgrifennu cynllun hyfforddiant i sicrhau fod gan pob aelod a staff y Cyngor sgiliau mewn rhai meysydd
- ▶ Cynnal arolwg o holl llwybrau cyhoeddus y gymuned i adnabod unrhyw waith sydd ei angen i'w cadw yn agored
- ▶ Adnabod safleoedd yn y gymuned i hybu bioamrywiaeth yn unol a Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (mae'n ddyletswydd ar bob Cyngor Tref a Chymuned i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau)
- ▶ Cefnogi Grwp Cyfeillion Y Groeslon i osod arwydd Croeso i'r osod arwydd Y Groeslon ar y gylchfan A487
- ▶ Cefnogi y gymuned ar hyfforddiant defnydd diffribilwyr



Ystadegau 2021/22

- ▶ Nifer cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn **12**
- ▶ Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau/Paneli/Gweithgorau **14**
- ▶ Nifer y cwynion a dderbyniwyd **1**
- ▶ Aelodau Newydd yn y cyfnod **dim**
- ▶ Ymddiswyddiadau yn y cyfnod **dim**
- ▶ Nifer aelodau wnaeth hawlio y lwfans blynyddol **5**
- ▶ Ymgynhoriadau gyda'r gymuned **4**
- ▶ Nifer claddedigaethau yn y dair fynwent **10**



Eich Cynrychiolwyr – Ward Carmel

nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Alan Patterson** Bryn Llifon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd LL54 7RW Rhif ffôn 01286 881843 neu 07989 906704 **Yn aelod ers Hydref 1995**
alanpatterson@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Bryn Williams** Dafarn Dywyrch, Llandwrog Uchaf, Caernarfon, Gwynedd LL54 7RA Rhif ffôn 01286 831378 neu 07583 517852. **Yn aelod ers Ebrill 1997**
brynwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd. Alun Parrington** 9 Carmel Terrace, Carmel Caernarfon, Gwynedd LL54 7RP Rhif ffôn 07833 252689 **Yn aelod ers Ionawr 2021**
alunparrington@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Fron

nifer seddau **2**

- ▶ **Cynghorydd Gwyn Owen Jones** Bodwyn, Y Fron, Caernarfon, Gwynedd LL54 7RB Rhif ffôn 01286 881138 neu 07903 333260. **Yn aelod ers Chwefror 1997**
wynowenjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **‘Roedd un sedd yn wag yn ystod 2021/22.**
Cynghorydd Edward John Willcox Noddfa, Y Fron Caernarfon, Gwynedd LL54 7BB Rhif ffôn 07919 914483 **Yn aelod ers Mai 2017, fydd yn cynrychioli Y Fron ers etholiad Llywodraeth Leol 5 Mai 2022**
eddiwillcox@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon – nifer seddau 6

- ▶ **Cynghorydd Alun Wyn Jones** Hafan, Rhes Grugan, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7TD Rhif ffôn 01286 830911 **Yn aelod ers Ionawr 1986 -**
alunwynjones@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Hywel John Owen** Sycharth, Cae Sarn, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7TW Rhif ffôn 01286 830006 neu 07979 985149 **Yn aelod ers Medi 1983.** **hywelowen@cyngorcymunedllandwrog.cymru**
- ▶ **Cynghorydd David C Davies** Bodarfryn, Dolydd, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7EF Rhif ffôn 07836 325195 **Yn aelod ers Mehefin 2017**
davidcdavies@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon

- ▶ **Cynghorydd Heulwen Jones-Griffiths** Penbrynrhos, Y Groeslon Bryn y Neuadd, Y Groeslon Caernarfon, Gwynedd LL54 7DL. Rhif ffôn 07788 570106 **Yn aelod ers Chwefror 2021**
heulwenjonesgriffiths@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Edward John Willcox** Noddfa, Y Fron Caernarfon, Gwynedd LL54 7BB Rhif ffôn 07919 914483 **Yn aelod ers Mai 2017 (yn cynrychioli Ward Y Fron ers 5 Mai 2022)**
eddiwillcox@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Sion Hywyn Griffiths** Parlwyn, 2 Rhes Grugan, LIY Groeslo, Caernarfon, Gwynedd LL54 7TD Rhif ffôn **Etholwyd i'r Cyngor 5 Mai 2022**
sionhywyngriffiths@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Eich Cynrychiolwyr – Ward

Llandwrog/Dinas Dinlle nifer seddau **3**

- ▶ **Cynghorydd Clive Bayley** Ty Clen, 1 Gernant, Bethesda Bach Caernarfon, Gwynedd LL54 5SJ Rhif ffôn 07967 794002 **Yn aelod ers Mehefin 2017**
clivebayley@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Dyfed Williams** Bwthyn Henryd. Llandwrog Caernarfon, Gwynedd LL54 5TN Rhif ffôn 01286 831290 neu 07772 819189 **Yn aelod ers Mai 2012**
dyfedwilliams@cyngorcymunedllandwrog.cymru
- ▶ **Cynghorydd Marnel Pritchard** Llain yr Eglwys, Llandwrog Caernarfon, Gwynedd LL54 5TA Rhif ffôn 01286 830993 **Yn aelod ers Chwefror 2020**
marnelpritchard@cyngorcymunedllandwrog.cymru

Cysylltu gyda eich Cyngor

Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor

- ▶ David Roberts, Bryn Meurig, Carmel , Caernarfon
Gwynedd LL54 7DS

- ▶ Rhif Ffôn **01286 881920** neu **07796 024288**

- ▶ E-bost [**rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru**](mailto:rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru)

- ▶ Gwefan y Cyngor

www.cyngorcymunedllandwrog.cymru

- ▶ Oriau Busnes y Cyngor – cytundeb **rhan amser** sydd gan y Rheolwr ond gellir cysylltu gyda ef naill a'i trwy e-bost, dros y ffôn, llythyru neu gartref unrhyw adeg. Cofiwch y gellir cysylltu gyda eich Cynghorwyr Cymuned ac hefyd eich Cynghorydd Sirol



Eich Cynghorwyr Sir

- ▶ Cynghorydd Eric Jones oedd yr Aelod etholedig dros Ward Y Groeslon yn ystod 2021/22. Ers etholiadau Llywodareth Leol 5 Mai 2022 cynrychioli'r Ward Y Groeslon gan **Llio Elenid Owen**

sydd yn cynrychioli Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle
Ffôn 07887 956253

ebost cynghorydd.llioelenidowen@gwynedd.llyw.cymru

- ▶ Cynghorydd Dilwyn Lloyd oedd yr Aelod etholedig dros Ward Talysarn yn ystod 2021/22. Ers etholiadau Llwodraeth Leol 5 Mai 2022 cynrychioli'r Ward newydd Tryfan gan **Arwyn Herald Roberts**
Cartrefle, Rhosgadfan sydd yn cynrychioli Y Fron a Carmel

Ffôn 07831448216

ebost cynghorydd.arwynherald@gwynedd.llyw.cymru

